# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Trosnant**

**Heol y Parc**
**Rhuthun**
**LL15 1NB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/01/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cartref Preswyl Trosnant o fewn pellter cerdded i ganol tref Rhuthun. Gall y cartref ddarparu llety a chymorth ar gyfer hyd at 12 o bobl. Anna Jones yw'r darparwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol, ac mae rheolwr wedi'i gyflogi sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r bobl yn hapus yn byw yn Trosnant, ac maent ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Gall y bobl ddilyn eu harferion eu hunain, a chânt eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl. Ymgynghorir â nhw ynglŷn â gwahanol agweddau ar y ffordd y caiff y cartref ei redeg. Ystyrir bod yr unigolyn cyfrifol yn hawdd mynd ati, ac mae'n ymweld â'r cartref yn aml, ond mae angen darparu mwy o dystiolaeth i ddangos sut mae'n sicrhau bod y gwasanaeth yn datblygu, a'i bod yn ymgynghori â'r bobl sy'n rhan o'r gwasanaeth. Ar y cyfan, rhoddir sylw da i gynnal a chadw'r cartref, yn ogystal â'i ddiogelwch, ac mae'r bobl yn ei ddisgrifio'n 'gartrefol'. Mae angen gwella'r arferion recriwtio a chyflogaeth.

**2. Gwelliannau**

Cafodd y gwasanaeth ei ailgofrestru yn ddiweddar o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a hwn oedd ei arolygiad cyntaf o dan y ddeddfwriaeth newydd. Caiff unrhyw welliannau eu hystyried fel rhan o'r arolygiad nesaf.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi'r camau gweithredu y mae angen i'r darparwr gwasanaeth eu cymryd er mwyn
sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni'r gofynion cyfreithiol, a'r argymhellion er mwyn gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir i'r bobl yn y cartref gofal. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynllunio gofal.
- Prosesau sicrhau ansawdd.
- Gwiriadau recriwtio cyflogeion.
- Sicrhau diogelwch yr amgylchedd.

## 1. Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Caiff dewisiadau unigol y bobl eu deall a'u parchu. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu treulio eu diwrnod sut a lle roeddent yn dymuno, a gwelsom hynny hefyd. Dywedodd perthynas wrthym fod y staff yn parchu dymuniad ei berthynas i dreulio ei amser yn ei ystafell, a bod y staff hefyd yn ei annog i dreulio amser mewn ardaloedd cymunedol. Roedd gan un unigolyn farn benodol ynghylch ble yr hoffai fwyta ei brydau bwyd, a gwnaed newidiadau i'r ystafell fwyta er mwyn sicrhau parchu hyn. Fodd bynnag, ni welsom lawer o dystiolaeth bod barn y bobl wedi cael ei cheisio ar nifer o faterion. Er enghraifft, gwelsom nad oedd y cynlluniau gofal yn cynnwys tystiolaeth bod barn y bobl wedi cael ei cheisio yn rheolaidd am sut roeddent yn dymuno i'w gofal gael ei ddarparu. Gwelsom fod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd iawn, a bod ganddi gydberthynas dda â'r bobl sy'n byw yn y cartref, yr ymwelwyr a'r staff, a oedd yn hwyluso dulliau cyfathrebu da yn anffurfiol. Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd, ond dylai cynlluniau gofal ddangos eu bod yn cael eu cynnwys mewn agweddau mwy personol ar eu gofal.

Mae'r bobl yn cael cymorth gyda'u hiechyd corfforol a meddyliol, a'u llesiant emosiynol a chymdeithasol. Gwasanaeth dwyieithog ydyw, lle roedd y rhan fwyaf o'r staff yn siarad â'r bobl yn y Gymraeg a'r Saesneg am yn ail, yn dibynnu ar anghenion unigol. Roedd y bobl yn cael eu hannog i nodi sut yr hoffent dreulio eu hamser, ac roedd y staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda nhw, gan gynnwys cwisiau, ymarferion mewn cadair freichiau a diddanwyr allanol. Roedd un unigolyn yn mwynhau tyfu ei lysiau ei hun mewn gwely uchel yn yr ardd, a chafodd y llysiau eu defnyddio yn y cartref. Roedd naws cartrefol, cyfeillgar yn y cartref, a oedd yn meithrin ymdeimlad o lesiant. Dywedodd un perthynas wrthym, '*when mum needed a care home, this was my first choice'*. Mae'r bobl yn cael ymdeimlad o lesiant yn Nhrosnant.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod ffeiliau gofal y bobl yn cynnwys asesiadau risg fel bod y staff yn ymwybodol o'r ffordd roedd angen amddiffyn y bobl. Dywedodd un unigolyn, '*I feel safe and if I wasn't happy would be able to tell someone'*. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar bob agwedd ar ofal gan gynnwys diogelwch. Gwelsom nad oedd y cyfarpar diogelwch tân wedi cael ei brofi mor aml ag sy'n ofynnol, ac rydym wedi rhoi gwybod i'r unigolyn cyfrifol bod angen mynd i'r afael â hyn. Ar y cyfan, gall y bobl deimlo'n ddiogel a gwybod y cânt eu hamddiffyn rhag niwed.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Roedd y bobl yn gallu personoli eu hystafell, ac roedd cynllun y cartref yn hybu ymdeimlad cartrefol. Roedd yr unigolyn cyfrifol yn parhau i ddiweddaru a gwella'r amgylchedd, gan sicrhau bod urddas y bobl yn cael ei gynnal. Ar y cyfan, caiff y cartref ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae'n diwallu anghenion y bobl.

## 2. Gofal a Chymorth

Ni all unigolion deimlo'n hyderus bob amser y bydd gan y darparwr gwasanaeth gynllun gofal cywir a chyfredol. Gwnaethom edrych ar ffeiliau gofal dau unigolyn, a gwelsom eu bod yn cynnwys gwybodaeth am sut i'w cefnogi mewn perthynas â'r rhan fwyaf o agweddau ar eu gofal, er enghraifft gofal personol, symudedd a maeth. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhai meysydd anghenion wedi'u disgrifio'n llawn, er enghraifft sut i gefnogi mewn perthynas â chyflyrau iechyd penodol. Gwelsom hefyd nad oedd y cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu bob tri mis fel sy'n ofynnol. Rydym wedi rhoi gwybod i'r darparwr gwasanaeth fod angen mynd i'r afael â hyn, Gwelsom ffeil un unigolyn a oedd wedi symud i mewn i'r cartref yn ddiweddar, a gwelsom nad oedd cynllun gofal wedi cael ei lunio. Roedd yn glir bod gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth dda o anghenion yr unigolyn hwn, ond mae angen rhoi cynllun gofal ar waith ar unwaith pan fydd unigolyn yn dechrau cael gofal. Felly nid yw'r darparwr gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau ar hyn o bryd. Gwnaethom siarad â'r unigolyn hwn, a dywedodd wrthym ei fod yn fodlon iawn ar y gofal y mae'n ei gael, a, *'the girls are marvellous, will do anything I need".* Gan fod y cartref gofal hwn yn fach, gyda thîm bach a chyson o staff, roedd anghenion y bobl yn cael eu deall yn dda, ond dylid diweddaru cynlluniau gofal pawb gan sicrhau eu bod yn disgrifio eu hanghenion yn llawn.

Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i ddisgrifio'r ffordd yr hoffent i'w gofal gael ei ddarparu. Er i ni weld tystiolaeth anghyson o ran ymgynghori â'r bobl, gwelsom fod y bobl yn gallu ymgysylltu â phob aelod o'r staff yn Nhrosnant, gan gynnwys yr unigolyn cyfrifol a'r dirprwy reolwr. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu cyfleu eu dymuniadau a bod y rhain yn cael eu parchu. Gwelsom fod y bobl yn cael eu trin fel unigolion. Er enghraifft, byddai un unigolyn yn penderfynu bob dydd ble byddai'n treulio ei amser, a chafodd ei gefnogi i fod yn hyblyg a threulio amser lle roedd yn teimlo fwyaf cyfforddus. Roedd un unigolyn wedi cael ei gefnogi i barhau i fod mor annibynnol â phosibl yn ei gymuned leol, ac roedd pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau nad oedd unrhyw gyfyngiadau arno, gan gynnwys sicrhau cysylltiadau agos â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Er nad oedd y cynlluniau gofal yn dangos llawer o dystiolaeth wedi'i chofnodi o waith ymgynghori â'r bobl sy'n byw yn y cartref, mae'n amlwg bod y bobl yn gallu disgrifio'r ffordd y maent am gael eu cefnogi ac yn teimlo bod eu dymuniadau'n cael eu parchu.

Mae unigolion yn cael cymorth i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill er mwyn cynnal eu hiechyd a'u llesiant yn barhaus. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y bobl yn cael eu cefnogi i fanteisio ar amrywiaeth eang o weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Roedd un person a oedd yn byw yn y cartref yn cael ei gefnogi i fynd i'r ysbyty yn aml iawn, a byddai'r cartref yn ceisio mynd ag ef i apwyntiadau, neu'n cysylltu â gwasanaethau cludo'r ysbyty ar ei ran. Roedd cydberthynas agos â'r feddygfa leol, a oedd o fudd i'r bobl sy'n byw yn Nhrosnant. Gwelsom dystiolaeth eu bod yn gweithio'n agos gyda'r tîm seiciatrig cymunedol i gefnogi un unigolyn yr oedd ei iechyd meddwl a'i ymddygiadau wedi newid. Gall y bobl deimlo'n hyderus y bydd y gwasanaeth yn eirioli ar eu rhan i gefnogi eu llesiant a'u hiechyd.

Mae gan y darparwr gwasanaeth fesurau ar waith i ddiogelu unigolion y maent yn darparu gofal a chymorth ar eu cyfer. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, a gwnaethant ddweud wrthym y byddent yn teimlo'n hyderus i roi gwybod am unrhyw faterion. Roedd y gwasanaeth wedi atgyfeirio unigolyn pan oedd ganddynt bryderon am ei ddiogelwch, a chafodd ei ganmol gan y gwasanaethau cymdeithasol am fod yn rhagweithiol wrth geisio amddiffyn yr unigolyn rhag niwed. Roedd gan y gwasanaeth bolisi diogelu ar waith, ond roedd angen ei ddiwygio er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gweithdrefnau diogelu diwygiedig. Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, a bydd y staff yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i hybu eu diogelwch.

## 3. Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod gofal a chymorth yr unigolyn yn cael eu darparu mewn lleoliad ac amgylchedd sy'n hybu ac yn parchu eu llesiant. Gwelsom fod gwaith ailaddurno wedi cael ei wneud er mwyn sicrhau bod y cartref yn ffres ac yn lân yn yr ardaloedd cymunedol ac yn ystafelloedd gwely'r bobl. Gwelsom fod yr ystafell fwyta wedi cael ei aildrefnu er mwyn ei gwneud hi'n haws i'r bobl symud o'i chwmpas. Gwelsom fod ffenestri gwydr dwbl newydd wedi cael eu gosod yn y cartref, a bod y bobl yn gallu dewis rhoi llenni rhwyd newydd ar eu ffenestri neu beidio. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym y caiff carped newydd ei osod yn y brif lolfa yn y gwanwyn, a bod y bobl sy'n byw yn y cartref wedi dewis pa garped i'w gael. Roedd y bobl yn gallu dod ag eitemau i mewn i bersonoli eu hystafelloedd. Gall y bobl deimlo'n hyderus y bydd y darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod eu hamgylchedd yn addas ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Yn gyffredinol, mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod y safle yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol mewn perthynas â diogelwch y cartref. Er bod materion wedi'u nodi gan y Gwasanaeth Tân, aed i'r afael â'r rhain fel sy'n ofynnol o fewn y terfyn amser cywir. Gwelsom fod cyfarpar tân yn cael ei wasanaethu ar yr adegau cywir, ond nid oedd gwiriadau gofynnol wedi cael eu cynnal fel sy'n ofynnol yn ddiweddar, gan gynnwys profi'r larwm tân bob wythnos a phrofi goleuadau argyfwng. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym yr eir i'r afael â hyn ar unwaith. Gwelsom fod gan y cartref sgôr hylendid bwyd o bump, gan ddangos bod arferion hylendid y gegin yn 'dda iawn'. Gwelsom nad oedd y rhan fwyaf o'r biniau yn agor â throed, ac felly gwnaethom argymell y dylid ystyried hyn er mwyn lleihau'r risg o groesheintio. Ar y cyfan, gall y bobl deimlo'n hyderus eu bod yn byw mewn cartref lle y caiff diogelwch ei gymryd o ddifrif ac yr eir i'r afael â materion diogelwch yn briodol.

## 4. Arwain a Rheoli

Mae angen i'r darparwr gwasanaeth wella'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Er bod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref bron bob dydd, nid oedd yn defnyddio unrhyw ddulliau ffurfiol i gofnodi'r ffordd roedd yn goruchwylio'r gwasanaeth. Nid oedd wedi llunio adolygiadau o ansawdd y gofal nac adroddiadau ymweld yr unigolyn cyfrifol fel sy'n ofynnol. Gwnaethom hysbysu'r unigolyn cyfrifol bod angen mynd i'r afael â hyn ar unwaith gan nad oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Gwelsom dystiolaeth ei bod yn ymgynghori â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu teuluoedd a'r staff, a'i bod yn parhau i wella'r amgylchedd, ac yn cysylltu â gweithwyr proffesiynol allanol. Er y gall y bobl fod yn hyderus bod yr unigolyn cyfrifol yn gyfarwydd â materion y cartref, ni allant deimlo'n hyderus y caiff y rhain eu hystyried mewn modd cyfannol na'u trin, gan fod diffygion o ran y dystiolaeth.

Mae gwybodaeth am y gwasanaeth ar gael i unigolion er mwyn eu galluogi i gael dealltwriaeth o'r gwasanaeth a ddarperir. Fodd bynnag, gwelsom mai dim ond yn y Saesneg mae'r wybodaeth ar gael. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yn y cartref yn siarad Cymraeg, a dywedwyd wrthym y gallent gyfieithu'r dogfennau i'r bobl pe baent yn gofyn. Mae angen i'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru, Mwy na Geiriau, a sicrhau bod cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys yr holl ddogfennau. Fodd bynnag, gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff gofal yn siarad Cymraeg, ac felly bod anghenion diwylliannol y bobl yn cael eu hystyried ac yr eir i'r afael â nhw, er enghraifft drwy gynnig dewis o wylio rhaglenni teledu Cymraeg neu Saesneg a'r cyfle i fynychu gwasanaethau crefyddol Cymraeg. Mae'r bobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth, ond dylid ystyried darparu dogfennau Cymraeg.

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu nifer priodol o staff sy'n addas yn gyffredinol ac sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol. Gwelsom fod y gofal yn cael ei ddarparu mewn modd hamddenol a digyffro, ac nad oedd neb yn teimlo dan bwysau. Ar y cyfan, roedd grŵp o staff cyson, a oedd yn golygu bod y bobl y cael gofal gan bobl a oedd yn gyfarwydd iddynt ac yn deall eu hanghenion yn dda. Fodd bynnag, gwelsom fod un aelod o'r staff a gyflogwyd yn ddiweddar wedi dechrau gweithio cyn i'r gwiriadau llawn gael eu cwblhau. Rydym wedi atgoffa’r unigolyn cyfrifol am yr angen i sicrhau bod gwiriadau addasrwydd llawn yn cael eu cynnal cyn i rywun ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Gwelsom fod y bobl y cael hyfforddiant, gyda rhai cyrsiau'n cael eu cynnal drwy e-ddysgu a rhai wyneb yn wyneb. Os nad yw aelod o'r staff yn gyfforddus gydag e-ddysgu, mae'n rhaid i'r darparwr sicrhau ei fod yn cael cymorth yn brydlon i gwblhau ei hyfforddiant. Gwelsom fod y staff gofal yn cael budd o sesiynau goruchwylio un i un aml gyda'r unigolyn cyfrifol. Dywedodd perthynas wrthym mai'r hyn yr oedd yn ei hoffi fwyaf oedd y ‘*Whole team approach. My mother settled from the outset and this is due to the friendliness and professionalism of the staff. Nothing is too much trouble and I am kept in the loop*.’ Dywedodd aelod o'r staff wrthym fod Trosnant yn ‘*Great place to work’*. Ar y cyfan, caiff y bobl eu cefnogi gan staff

sy'n addas i ddarparu'r lefelau gofal sy'n ofynnol, ond mae angen gwneud rhai gwelliannau o ran recriwtio diogel a hyfforddiant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim: dyma'r arolygiad cyntaf ers i'r cartref gael ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

### 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a welwyd yn yr arolygiad hwn

Nid yw'r darparwr cofrestredig yn cydymffurfio â Rheoliad 15 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae hyn am nad oedd wedi datblygu cynllun gofal ar gyfer unigolyn a oedd wedi symud i'r cartref mewn modd amserol. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio y tro hwn am nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio â Rheoliad 80. Mae hyn am nad yw wedi paratoi adolygiad o ansawdd y gofal fel sy'n ofynnol. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio y tro hwn am nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r materion hyn, a chânt eu hystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

### 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

- Dylai cynlluniau gofal gynnwys mwy o wybodaeth er mwyn sicrhau bod y staff yn gwybod sut i gefnogi pobl ag anghenion a chyflyrau iechyd penodol. Rhaid iddynt gael eu hadolygu bob tri mis a rhaid iddynt ddangos tystiolaeth bod yr unigolyn a/neu'r teulu'n cael eu cynnwys.
- Rhaid i adroddiadau o ansawdd y gofal gael eu llunio bob chwe mis fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.
- Dylid ystyried defnyddio biniau sy'n agor â throed er mwyn lleihau'r risg o groesheintio.
- Rhaid cwblhau gwiriadau cyflogaeth llawn cyn i gyflogeion ddechrau gweithio.
- Rhaid cynnal gwiriadau diogelwch fel sy'n ofynnol.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers iddo gael ei ailgofrestru o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol. Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu. Gwnaethom ymweld â'r cartref yn ddirybudd ar 14 Ionawr 2020 rhwng 9:30am a 4:30pm. Cynhaliwyd yr arolygiad o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA). Defnyddiwyd y dulliau canlynol:-

- Gwnaethom gerdded o gwmpas yr adeilad gan weld yr ardaloedd cymunedol, sampl o ystafelloedd gwely, ac arsylwi ar y gofal a ddarperir.

- Gwnaethom siarad â thri o'r bobl sy'n byw yn y cartref, un perthynas a oedd yn ymweld â'r cartref, yr unigolyn cyfrifol, y dirprwy reolwr a dau aelod o'r staff.

- Defnyddiwyd holiaduron er mwyn ceisio barn y bobl a ddefnyddiai'r gwasanaeth, eu perthnasau, y staff a gweithwyr proffesiynol oedd yn gweithio gyda'r gwasanaeth; cafwyd ymatebion gan dri o'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, un perthynas, un aelod o'r staff gofal ac un gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref.

- Gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion. Gwnaethom ganolbwyntio ar gofnodion gofal dau unigolyn, cofnodion cynnal a chadw, prosesau ansawdd y gofal, a chofnodion hyfforddiant a goruchwylio'r staff.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | Gwasanaeth Cartref Gofal |
| **Darparwr y Gwasanaeth** | Anna Jones |
| **Unigolyn Cyfrifol** | Anna Jones |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | 12 |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | 20/11/2017 |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | 14/01/2020 |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | Y ddwy |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/03/2020